# Gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein: diweddariad cynnydd

Fersiwn Saesneg ar gael

**Dogfen**

Cyhoeddwyd 17 Hydref 2024

# Cynnwys

## Adran


Cynnydd ers i’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith ....................................................3

Map ffordd wedi’i ddiweddaru ....................................................................................15

# Cynnydd ers i’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith

Mae’r ddogfen hon yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith yn ystod y deuddeg mis ers i’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein (“y Ddeddf”) gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2023. Mae’n egluro beth fydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ei wneud yng ngham nesaf gweithredu’r Ddeddf, gyda’r rheolau newydd yn dechrau dod i rym o fis Rhagfyr 2024 ymlaen.

Ein cenhadaeth yw gwneud bywyd yn fwy diogel ar-lein yn y DU, yn enwedig i blant. Ein rôl yw sicrhau bod gan wasanaethau’r systemau a’r prosesau priodol i amddiffyn pobl rhag niwed. Fe wnaethom symud yn gyflym i ddechrau gweithredu’r Ddeddf yn syth ar ôl iddi gael ei phasio, gan lansio ein hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon ar-lein ym mis Tachwedd 2023, ac fe’i dilynwyd ym mis Rhagfyr 2023 gan ganllawiau drafft ar gyfer gwasanaethau pornograffi ar-lein ar sut y dylent ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn fel nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws deunydd pornograffig. Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi cynigion ar gyfer sut y dylai gwasanaethau fynd i’r afael â’u dyletswyddau newydd yn ymwneud â chynnwys sy’n niweidiol i blant.

Wrth i’r rheolau newydd ddod i rym, bydd angen i wasanaethau ar-lein sy’n cynnal cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, gwasanaethau chwilio a gwasanaethau pornograffi sydd ar gael i bobl yn y DU, weithredu. Rydym yn disgwyl gweld:

- Yr holl wasanaethau sydd o fewn y cwmpas yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch defnyddwyr, mynd i’r afael â risgiau i ddefnyddwyr a dynodi uwch bobl sy'n atebol. Un o amcanion craidd y Ddeddf yw sicrhau bod gwasanaethau’n ddiogel drwy ddyluniad, h.y. bod cwmnïau’n ymgorffori ystyriaethau diogelwch yn union ddyluniad eu gwasanaethau wrth iddynt wneud penderfyniadau ar gynnyrch, nodweddion a strategaethau masnachol newydd.
- Plant yn cael eu hamddiffyn yn well ar-lein, gyda gwasanaethau’n gorfod cyflwyno archwiliadau oedran cadarn i atal plant rhag gweld cynnwys fel hunanladdiad, deunydd hunan-niweidio a phornograffi, a hidlo ac israddio deunydd niweidiol mewn cynnwys sy’n cael ei argymell.
- Rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn mynd yn anoddach, a phlant yn cael eu gwarchod rhag cyswllt gan oedolion nad ydynt eisoes yn eu hadnabod.
- Cynnwys anghyfreithlon – gan gynnwys iaith casineb anghyfreithlon, cynnwys terfysgol a chynnwys sy’n annog neu’n hwyluso hunanladdiad – yn cael ei dynnu i lawr yn gyflym ar ôl i wasanaethau ddod yn ymwybodol ohono.
- Menywod a merched yn cael eu hamddiffyn yn well rhag casineb at fenywod, aflonyddu a cham-drin ar-lein.
- Gweithredu mwy effeithiol ar dwyll.

Dros amser, bydd y rheolau newydd hefyd yn galluogi defnyddwyr i gael mwy o reolaeth dros eu profiad ar-lein ac yn gwella tryloywder o ran yr hyn mae gwasanaethau’n ei wneud i gadw defnyddwyr yn ddiogel.

Mae cam newydd yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Ym mis Rhagfyr, rydym yn disgwyl cyhoeddi argraffiad cyntaf y Codau Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon a chanllawiau asesu risg ar gynnwys anghyfreithlon. Bryd hynny, rhaid i bob darparwr gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf gymryd camau i asesu’r risgiau o gynnwys anghyfreithlon yn ymddangos ar eu gwasanaeth. Rhaid i’w hasesiadau fod yn addas ac yn ddigonol i ganfod yr holl risgiau maen nhw’n eu hwynebu, a rhaid eu cwblhau erbyn canol mis Mawrth 2025. Byddwn yn disgwyl i wasanaethau penodol ddatgelu eu hasesiadau risg i ni o 31 Mawrth 2025 ymlaen.

Yn dilyn y bwriad i gyhoeddi ein canllawiau asesu mynediad plant ym mis Ionawr 2025, bydd gan bob darparwr gwasanaeth o fewn y cwmpas dri mis i asesu a yw plant yn debygol o ddefnyddio eu gwasanaeth, felly erbyn mis Ebrill 2025. Rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant wedyn gynnal asesiad risg plant o fewn tri mis i ni gyhoeddi ein Codau Ymarfer Amddiffyn Plant a'n canllawiau asesu risg ym mis Ebrill 2025. Dylai'r gwasanaethau hynny baratoi i gwblhau eu hasesiadau risg plant erbyn mis Gorffennaf 2025, a byddwn yn disgwyl i wasanaethau penodol ddatgelu eu hasesiadau risg plant i ni o 31 Gorffennaf 2025 ymlaen.

Ar ôl i'r Codau Ymarfer fynd drwy'r Senedd Brydeinig, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau gymryd y camau a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i ddiogelu defnyddwyr.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau gydymffurfio, ac rydym yn barod i lansio camau gorfodi ar unwaith os nad yw darparwyr yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaethau. Rydym eisoes yn gweithio gyda nifer fechan o wasanaethau arbennig o allweddol i asesu a gwella eu mesurau diogelwch, gan dargedu gwasanaethau peryglus yn ogystal â gwasanaethau mawr.

Yn unol â'n hymrwymiad i adeiladu ar y Codau a'u hailadrodd dros amser, byddwn yn lansio ymgynghoriad newydd yng ngwanwyn 2025 ar rai mesurau penodol pellach sy'n adeiladu ar ein Codau cyntaf. Byddwn hefyd yn cyflwyno canllawiau drafft i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ar ddiogelu menywod a merched ym mis Chwefror 2025.

Rydym wedi bod yn glir nad oes angen i ddarparwyr gwasanaethau aros i nodi a mynd i'r afael â'r niwed sy'n bodoli ar eu gwasanaethau. Lle nad yw mesurau diogelu defnyddwyr yn ddigonol i fynd i'r afael â'r risgiau maent yn eu hwynebu, nid oes unrhyw rheswm da dros oedi cyn gwneud newidiadau er budd diogelwch defnyddwyr.

Mae cam olaf gweithredu'r Ddeddf yn ymwneud â'r dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio. Fe wnaethom anfon ein cyngor at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 29 Chwefror 2024. Y cam nesaf yw i'r Llywodraeth Brydeinig gadarnhau'r trothwyon ar gyfer categoreiddio mewn is-ddeddfwriaeth, a disgwyliwn i hyn ddigwydd erbyn diwedd 2024. Rydym hefyd wedi newid pwyslais ein gwaith ar y dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio i sicrhau ein bod yn cyflawni'n gyflymaf yn y meysydd rydym yn disgwyl y byddant yn arbennig o fuddiol o ran diogelu defnyddwyr ar ôl i'r trothwyon gael eu cadarnhau. Yn benodol, byddwn yn cyflymu'r gwaith o lansio adroddiadau tryloywder ganol 2025, ac yn rhoi amser i ni'n hunain ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ar y dyletswyddau eraill. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar gynigion ynghylch y dyletswyddau eraill ar wasanaethau wedi'u categoreiddio yn chwarter cyntaf 2026, fan bellaf.

Mae'r dyddiadau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu ein hamserlenni presennol; wrth i ni barhau i fynd i'r afael â materion a godir gan randdeiliaid, ac wrth i'r llywodraeth roi'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith, mae'n bosibl y gallai rhai dyddiadau newid.

# Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

## Rydym wedi symud yn gyflym i roi'r rheolau newydd ar waith

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom ymgymryd yn ffurfiol â'n rôl fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein pan gafodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein Gydsyniad Brenhinol ac fe wnaethom nodi cynlluniau manwl sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaethau ar-lein yn diogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon ac yn diogelu plant rhag cynnwys niweidiol, gan gynnwys pornograffi.

- Ym mis Tachwedd 2023, bythefnos ar ôl i'r Ddeddf ddod yn gyfraith, fe wnaethom lansio ymgynghoriad mawr ar niwed anghyfreithlon ar-lein. Fe wnaethom gyflwyno cynigion a oedd yn mynnu bod cwmnïau technoleg yn defnyddio amrywiaeth o fesurau i ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon ar-lein – o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol a meithrin perthynas amhriodol, i dwyll, yn ogystal â mathau eraill o gynnwys anghyfreithlon.
- Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom ddilyn hyn gyda chanllawiau drafft manwl ar gyfer gwasanaethau pornograffi ar-lein a sut y gallant gydymffurfio â'u dyletswyddau i

ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant rhag dod ar draws deunydd pornograffig yn arferol. Mae'r canllawiau drafft yn cynnig y dylai'r mesurau gwirio oedran fod yn dechnegol gywir, yn gadarn, yn ddibynadwy, ac yn deg.

- Ar 29 Chwefror 2024, fe wnaethom gyflwyno ein cyngor i'r Llywodraeth Brydeinig bryd hynny ar y trothwyon i benderfynu a yw gwasanaeth yn cael ei ddynodi'n wasanaeth 'wedi'i gategoreiddio' ai peidio.
- Ym mis Ebrill 2024, daeth ein pwerau adran 101 i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â marwolaeth plentyn sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau crwneriaid i rym. Buom yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Prif Grwner, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid yn y gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth i helpu crwneriaid i ddeall sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn i gefnogi ymchwiliad neu gwest i farwolaeth plentyn. Rydym hefyd wedi ymgynghori ar ganllawiau ar bwerau adran 101 fel rhan o'n hymgynghoriad casglu gwybodaeth, a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2024.
- Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein cynigion ar gyfer sut y dylai gwasanaethau fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd yn ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae hyn yn cynnwys sut mae asesu a yw gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant, a'r camau y mae angen i wasanaethau eu cymryd i gadw plant yn ddiogel ar-lein, fel gwiriadau oedran cadarn, algorithmau mwy diogel, a chymedroli effeithiol.
- Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Roedd y Ddeddf yn ychwanegu at ein cyfrifoldebau presennol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gyda gofynion i Ofcom feithrin ymwybyddiaeth o sut y gall pobl (ac yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl o niwed) ddiogelu eu hunain ac eraill ar-lein, tra'n annog defnyddio technolegau a systemau gan wasanaethau sy'n eu galluogi i wneud hynny.
- Yn ystod 2023 a 2024, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i wasanaethau ar eu cyfrifoldebau. Roedd hyn yn cynnwys, yn mis Hydref 2023, ein llythyr agored i lwyfannau rhannu fideos ynghylch yr argyfwng yn Israel a Gaza, ac ym mis Awst 2024, ein llythyr agored at ddarparwyr gwasanaethau ar-lein ynghylch y risg uwch y bydd eu llwyfannau'n cel eu defnyddio i ysgogi casineb, i ysgogi trais ac i gyflawni troseddau eraill dan gyfraith y DU, yng nghyd-destun gweithredoedd o drais yn y DU dros yr haf.

Rydym wedi ymgynghori â channoedd o randdeiliaid ynghylch ein cynigion, a chododd rhai rhanddeiliaid bwyntiau pwysig y mae angen eu hystyried yn ofalus. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

## Byddwn yn dod â'r dyletswyddau diogelu plant a niwed anghyfreithlon i rym cyn gynted â phosibl

Roedd y trais a welwyd ledled y DU ym mis Awst 2024 yn dangos bod y llinell rhwng niwed ar-lein a niwed 'bywyd go iawn' yn aml yn aneglur. Gwelsom y risgiau sy'n gallu codi o bobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ysgogi casineb ac achosi trais – y ddwy yn droseddau blaenoriaeth dan y Ddeddf. Roedd y digwyddiadau'n pwysleisio pwysigrwydd symud yn gyflym i weithredu'r deddfau newydd fel bod gwasanaethau'n cael eu dal yn atebol am asesu'r risgiau ar eu gwasanaethau'n briodol a chymryd camau priodol i wneud eu gwasanaethau'n fwy diogel, gan gynnwys cymryd camau i atal cynnwys o'r math hwn rhag ymddangos a gweithredu'n gyflym i'w ddileu pan fyddant yn dod yn ymwybodol ohono.

Mynd i'r afael â niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant ar-lein yw'r ffocws pwysicaf o hyd. Ein blaenoriaeth yw dod â'r dyletswyddau newydd i rym cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn diogelu defnyddwyr rhag rhai o'r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys, ymddygiad a chyswllt ar-lein: camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin, terfysgaeth, troseddau casineb, cynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad a hunan-niweidio, a thwyll.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar argraffiad cyntaf ein Codau Ymarfer gyda rhagor o fesurau, gan gynnwys rhai sydd wedi cael eu hawgrymu i ni gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriadau. Fodd bynnag, er mwyn ychwanegu mesurau newydd at ein Codau Ymarfer, bydd angen ymgynghori

ymhellach ac mae angen i ni ddilyn y broses ffurfiol a nodir yn y Ddeddf. Rydym wedi penderfynu, yn hytrach nag oedi cyn cwblhau argraffiad cyntaf ein Codau, y byddwn yn cyflwyno rhagor o gynigion i gryfhau'r Codau ar ôl i'n hargraffiadau cyntaf ddod i rym. **Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y mesurau ychwanegol hyn yn ystod gwanwyn 2025.** Bydd hyn yn cynnwys gwaith a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni, i ymgynghori ar sut y gellir defnyddio offer awtomataidd i fynd ati'n rhagweithiol i ganfod cynnwys anghyfreithlon a'r cynnwys sydd fwyaf niweidiol i blant, gan fynd y tu hwnt i'r mesurau canfod awtomatig rydym eisoes wedi ymgynghori arnynt.

Mae tystiolaeth aruthrol y gall y byd ar-lein fod yn lle gelyniaethus i fenywod a merched ac mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu canllawiau sy'n canolbwyntio ar y cynnwys a'r gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Rydym yn blaenoriaethu'r gwaith hwn wrth i ni weithredu'r Ddeddf ac rydym yn **cyflwyno cynigion newydd ym mis Chwefror 2025, yn gynharach na'r hyn a gynlluniwyd yn flaenorol, ar ganllawiau arfer gorau o ran diogelu menywod a merched ar-lein**.

## Rydym wedi ailflaenoriaethu ein gwaith ar y dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio

Bydd gan wasanaethau wedi'u categoreiddio rwymedigaethau ychwanegol dan y Ddeddf, fel cynhyrchu adroddiadau tryloywder, cymhwyso'u telerau gwasanaeth yn gyson, rhoi mwy o adnoddau i ddefnyddwyr reoli'r hyn maent yn ei weld, sicrhau amddiffyniad ar gyfer cynnwys newyddiadurol a chyhoeddwr newyddion ac atal hysbysebion twyllodrus.

Ar 29 Chwefror 2024, fe wnaethom gyflwyno ein cyngor i'r Llywodraeth Brydeinig fel ag yr oedd, ar y trothwyon ar gyfer dynodi gwasanaeth yn un sydd wedi'i gategoreiddio.

Y cam nesaf yw i'r Llywodraeth Brydeinig gadarnhau'r trothwyon mewn is-ddeddfwriaeth. Cyn gynted ag y bydd is-ddeddfwriaeth wedi'i phasio gan y Senedd Brydeinig, byddwn yn dechrau ar unwaith ar y gwaith o ddatblygu cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio, a'n nod yw cyhoeddi hon tua phedwar i bum mis ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei phasio. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyhoeddi ceisiadau ffurfiol y gellir eu gorfodi am wybodaeth er mwyn i ni allu asesu a yw gwasanaethau'n cyrraedd y trothwyon.

Yn y cyfamser, rydym wedi ailflaenoriaethu ein gwaith ar y dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio, i ganolbwyntio ar gyflawni'r meysydd hynny rydym yn disgwyl y byddant yn rhoi'r budd mwyaf ar unwaith, ac i greu capasiti i ni gyflwyno ein gwaith i amddiffyn menywod a merched, a'r ymgynghoriad newydd ar fesurau ychwanegol ar gyfer y codau Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant.

Rydym yn disgwyl y bydd y dyletswyddau tryloywder ymysg y rhai mwyaf effeithiol o ran gwella diogelwch defnyddwyr drwy dynnu sylw at weithredoedd gwasanaethau – ac yn benodol drwy ddarparu tystiolaeth gadarn, am y tro cyntaf, am effeithiolrwydd eu mesurau diogelwch. **Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith hwn, gan anelu at ddechrau cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft i wasanaethau o fewn ychydig wythnosau i gwblhau'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Ar sail rhagdybiaeth cynllunio y bydd yr is-ddeddfwriaeth categoreiddio yn cael ei chyflwyno erbyn diwedd 2024, mae'r cynllun hwn yn unol â'n hymrwymiad yn y map ffordd blaenorol, lle'r oeddem wedi ymrwymo i anfon ein hysbysiadau tryloywder drafft cyntaf yn ystod yr haf 2025. **Rydym yn disgwyl i'r adroddiadau tryloywder cyntaf sy'n orfodol yn ein hysbysiadau gael eu cyhoeddi gan wasanaethau tua diwedd 2025.**

**Rydym yn disgwyl cyhoeddi Codau Ymarfer drafft ar y dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio erbyn dechrau 2026.** Mae hyn tua blwyddyn yn ddiweddarach na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw'r trothwyon wedi'u pennu mewn is-ddeddfwriaeth eto, ac yn rhannol oherwydd ein penderfyniad i ail-amserlennu gwaith ar anghenion hanfodol eraill, gan gynnwys cyflwyno'r canllawiau ar ddiogelu menywod a merched, ymgynghori ar ragor o fesurau niwed anghyfreithlon penodol, a chyflymu'r gwaith ar hysbysiadau tryloywder i gyhoeddi'r rhain yn 2025.

**Mae'r adran map ffordd wedi'i diweddaru yn y ddogfen hon yn egluro ein hamserlenni gweithredu yn fanwl.**

### Mae'r Codau hyn yn creu sylfaen gref, a byddwn yn parhau i adeiladu arnynt

Bydd yr argraffiadau cyntaf hyn o'r Codau Ymarfer yn sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i ddefnyddwyr yn y DU. Byddant hefyd yn darparu sylfaen gadarn y gallwn adeiladu arni yn y blynyddoedd i ddod.

Ein hasesiad, ar ôl ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ers i'r Ddeddf gael ei phasio, yw y bydd y rheolau newydd, a'r mesurau a gynigir yn y set gyntaf o Godau, os cânt eu cadarnhau, yn sbarduno newid sylweddol. Byddant yn mynnu llywodraethu ac asesu risg llawer mwy effeithiol gan ddarparwyr gwasanaeth. Bydd mesurau trawsbynciol eraill, fel systemau adrodd a chymedroli ac adrodd ar gynnwys clir ac effeithiol, yn helpu i ganfod a chael gwared ar gynnwys anghyfreithlon, gan leihau'r niwed cysylltiedig. Mae'r mesurau i amddiffyn plant rhag meithrin perthynas amhriodol yn y Codau Niwed Anghyfreithlon yn newydd ac nid ydynt, hyd y gwyddom, wedi cael eu cynnig gan unrhyw reoleiddiwr arall ledled byd.

Byddai ein Codau arfaethedig hefyd yn ehangu'n sylweddol nifer y gwasanaethau risg uchel sy'n defnyddio 'cyfateb hashnodau' (hynny yw, technegau sy'n gallu canfod delweddau a fideos anghyfreithlon neu niweidiol fel arall) ac yn arwain at newid sylweddol o ran canfod a dileu Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM). Mae'r Codau Ymarfer Plant drafft yn mynd y tu hwnt i arferion presennol y diwydiant gyda mesurau sy'n cynnwys sicrwydd oedran cadarn, algorithmau mwy diogel, ac offer a chymorth i helpu plant i gadw'n ddiogel.

Yn ystod blynyddoedd cynnar hyn y drefn diogelwch ar-lein, byddwn yn gorfodi'r dyletswyddau diogelwch gan ystyried y mesurau a amlinellir yn argraffiad cyntaf ein Codau, gan ystyried yn weithredol sut mae eu cryfhau ymhellach. Mae heriau, syniadau a thystiolaeth gan randdeiliaid eisoes yn gwella'r mesurau arfaethedig i gadw defnyddwyr yn ddiogel. Byddwn yn parhau i geisio mewnbwn gan y cyhoedd, cymdeithas sifil, darparwyr gwasanaethau a chyrff arbenigol eraill wrth i'r drefn reoleiddio newydd hon ddatblygu.

## Y camau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eu cymryd yn 2025

Yn y flwyddyn gyntaf hon o'r drefn diogelwch ar-lein, rydym wedi canolbwyntio ar weithredu'r rheolau fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Gan ddechrau o ganol mis Rhagfyr, bydd y ffocws yn newid at ddarparwyr gwasanaeth a'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol newydd i ddiogelu defnyddwyr.

### Asesu a lliniaru risg

#### Niwed Anghyfreithlon

Rhaid i'r holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio sydd o fewn cwmpas y Ddeddf gwblhau eu hasesiadau risg cynnwys anghyfreithlon o fewn tri mis i ni gyhoeddi'r canllawiau asesu risg terfynol ar gyfer cynnwys anghyfreithlon. Bydd angen i wasanaethau fod yn barod i gwblhau'r asesiadau hyn erbyn canol mis Mawrth 2025, ar ôl cyhoeddi bwriedig ein canllawiau terfynol ganol mis Rhagfyr 2024. Byddwn yn disgwyl i wasanaethau penodol ddatgelu eu hasesiadau risg i ni o **31 Mawrth 2025**.

#### Amddiffyn plant

Rhaid i'r holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio sydd o fewn cwmpas y Ddeddf gynnal asesiad o fynediad plant i benderfynu a yw eu gwasanaeth – neu ran o'u gwasanaeth – yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant o fewn tri mis i ni gyhoeddi canllawiau asesu mynediad plant terfynol. Bydd angen i wasanaethau fod yn barod i gwblhau'r asesiadau hyn

erbyn canol mis Ebrill 2025, ar ôl cyhoeddi bwriedig ein canllawiau terfynol ar fynediad plant ganol mis Rhagfyr 2025.

Rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant wedyn gynnal asesiad risg plant o fewn tri mis i ni gyhoeddi ein Codau Amddiffyn Plant a'n canllawiau asesu risg ym mis Ebrill 2025. Dylai'r gwasanaethau hynny baratoi i gwblhau eu hasesiadau risg plant erbyn mis Gorffennaf 2025. Byddwn yn disgwyl i wasanaethau penodol ddatgelu eu hasesiadau risg i ni o **31 Gorffennaf 2025**.

Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n cynnal cynnwys pornograffig ddefnyddio sicrwydd oedran i atal plant rhag gallu cael mynediad at y cynnwys hwnnw yn arferol. Bydd y dyletswyddau hyn yn dechrau dod i rym o fis **Ionawr 2025**, pan fyddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth Brydeinig ddechrau Rhan 5 y Ddeddf, sy'n cynnwys gwasanaethau sy'n cyhoeddi pornograffi, a byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau terfynol sy'n ymwneud â'r rhan hon.

### Sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon

Bydd yr asesiadau risg hyn yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n nodi ac yn lliniaru'n effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â chynnwys ar eu gwasanaeth sy'n anghyfreithlon ac yn niweidiol i blant.

Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r asesiadau gorfodol hyn fod yn addas ac yn ddigonol i ganfod yr holl risgiau perthnasol y mae gwasanaethau'n eu hwynebu. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni gymryd camau gorfodi, gan gynnwys rhoi dirwyon, am fethu â chydymffurfio. Bydd hyn yn flaenoriaeth gynnar i ni.

## Y newidiadau rydym yn disgwyl eu gweld wrth i'r dyletswyddau diogelwch ddod i rym


Pan fydd mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr yn annigonol, mae'n rhaid i wasanaethau wella'r systemau a'r prosesau maen nhw'n eu defnyddio i gadw defnyddwyr yn ddiogel. Nid ein rôl ni yw tynnu darnau unigol o gynnwys i lawr na rhwystro cyfrifon penodol. Byddwn yn defnyddio ein pwerau a'n dyletswyddau dan y Ddeddf i amddiffyn oedolion a phlant yn y DU, drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cymryd camau addas i gadw pobl yn ddiogel.

Drwy weithredu'r Ddeddf, rydym am sicrhau newid mewn pedwar maes allweddol:

- **llywodraethu** diogelwch a rheoli risg cryfach mewn gwasanaethau ar-lein;
- gwasanaethau ar-lein wedi'u **llunio** a'u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg;
- mwy o **ddewis** i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheoli eu profiadau ar-lein, a
- mwy o **ymddiriedaeth** wedi'i meithrin drwy fwy o dryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithredu.

Ers ein map 2023, rydyn ni wedi nodi wyth targed ar gyfer gweithredu ar unwaith, ar sail lle mae'r niwed mwyaf a lle rydyn ni'n gwybod bod camau clir y gall gwasanaethau eu cymryd.

**Ffigur 1: Ein ffocws ar gyfer y tair blynedd nesaf**




**1. Gwasanaethau'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch defnyddwyr, yn mynd i'r afael â risgiau i ddefnyddwyr ac yn enwi uwch bobl sy'n atebol.** Rydym am weld gwasanaethau'n cwblhau asesiadau risg effeithiol a bod â strwythurau risg a llywodraethu mewnol sy'n mynd i'r afael â diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys adnabod uwch bobl a nodi'n glir pwy sy'n atebol ac yn gyfrifol am ddiogelwch defnyddwyr o fewn gwasanaethau, fel y bo'n briodol.

**2. Plant yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys a gweithgarwch niweidiol, gan gynnwys pornograffi.** Rydym yn disgwyl i wasanaethau fod â mesurau diogelwch sy'n diogelu plant, gan gynnwys gwiriadau oedran llym i'w hatal rhag gweld cynnwys fel deunydd hunanladdiad a hunan-niweidio a phornograffi, ac i hidlo neu israddio deunydd niweidiol mewn cynnwys sy'n cael ei argymell gan algorithmau.

**3. Ni all troseddwyr rannu cynnwys cam-drin plant yn rhywiol ac nid yw plant yn wynebu cyswllt anniogel.** Rydym am i rannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol fynd yn anoddach, ac i blant gael eu gwarchod rhag cyswllt gan oedolion nad ydynt eisoes yn eu hadnabod. Mae bron i un o bob pump o blant yn cael eu hudo'n rhywiol gan oedolion maen nhw wedi sgwrsio â nhw ar-lein – mae angen newid er mwyn rhoi terfyn ar hyn.

**4. Cynnwys anghyfreithlon – gan gynnwys casineb a therfysgaeth – yn cael ei dynnu i lawr yn gyflym.** Rydym yn disgwyl i wasanaethau fod â mesurau ymddiriedaeth a diogelwch sy'n gallu mynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon – gan gynnwys iaith casineb, cynnwys terfysgol a chynnwys sy'n annog neu'n helpu hunanladdiad – a sicrhau ei fod yn cael ei dynnu i lawr yn gyflym pan fydd gwasanaethau yn ymwybodol ohono.

**5. Menywod a merched yn wynebu llai o niwed a cham-drin ar sail rhywedd ar-lein.** Rydyn ni eisiau i fenywod a merched deimlo'n ddiogel ar-lein a pheidio â gorfod delio â chymaint o aflonyddu a chasineb, gyda llwybrau adrodd effeithiol ar gael iddynt pan fyddant yn profi ymddygiad niweidiol.

**6. Twyll ar-lein yn cael ei leihau.** Rydym eisiau gweld bod gan wasanaethau systemau a phrosesau ar waith i'w gwneud hi'n anoddach i dwyll ar-lein ddigwydd – gan gynnwys canfod, rhwystro ac atal gweithgarwch twyllodrus. Bydd y dyletswyddau categoreiddio hefyd yn mynnu bod rhai gwasanaethau'n defnyddio systemau a phrosesau sydd wedi'u dylunio i atal hysbysebion twyllodrus.

**7. Defnyddwyr – yn enwedig plant – yn cael eu galluogi i fod â rheolaeth dros eu profiad ar-lein.** Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau mwyaf a'r rhai sy'n cael eu defnyddio amlaf (dynodwyd yn 'categori 1') ddarparu adnoddau i ddefnyddwyr ddeall eu dewisiadau ar-lein yn well a rhoi'r gallu iddynt addasu'r cynnwys maen nhw'n ei weld a gyda phwy maen nhw'n rhyngweithio ar-lein. Bydd ein cynigion ar gyfer y gwasanaethau hyn yn defnyddio ymchwil gwybodaeth am ymddygiad a'n rhaglen hirsefydlog Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.

**8. Mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau'n cadw defnyddwyr yn ddiogel – a beth mae Ofcom yn ei wneud i sicrhau newid cadarnhaol.** Byddwn yn defnyddio ein pwerau tryloywder newydd i helpu i daflu goleuni ar fesurau diogelwch ac ymddiriedaeth llwyfannau ac i dynnu sylw at arferion da a gwael. Bydd hyn yn helpu i rymuso'r cyhoedd gyda mwy o wybodaeth. Byddwn hefyd yn ceisio bod yn dryloyw ynghylch yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein i wthio newid cadarnhaol ac atal drwgweithredu.

## Rydym yn gweithio gyda gwasanaethau sy'n peri risgiau penodol, ac rydym yn bwriadu eu gorfodi ar unwaith

Wrth i ni baratoi i'r dyletswyddau ddod i rym, rydyn ni'n ymgysylltu â'r diwydiant i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn gwybod beth yw eu dyletswyddau, eu bod yn cael eu cefnogi i gydymffurfio, a bod y gwasanaethau sy'n peri'r risg fwyaf i ddefnyddwyr – mawr neu fach – yn cymryd camau cyflym i wella eu mesurau diogelu. Mae ein gwaith ymgysylltu yn cynnwys:

### Cynhyrchu adnoddau i gefnogi gwasanaethau i gydymffurfio

Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau bod gwasanaethau'n cwblhau asesiadau risg effeithiol a bod ganddynt strwythurau risg a llywodraethu mewnol sy'n mynd i'r afael â diogelwch ar-lein, a byddwn yn darparu adnoddau i helpu cwmnïau i reoli risg. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:

- dadansoddiad o achosion ac effeithiau niwed ar-lein, i gefnogi gwasanaethau i asesu'r risgiau y maent yn eu hwynebu;
- canllawiau ar broses a argymhellir ar gyfer asesu risg; a
- Codau Ymarfer, sy'n nodi'r hyn y gall gwasanaethau ei wneud i liniaru'r risg o niwed.

Mae gennym hefyd raglen waith helaeth i wneud y rheoliadau'n hygyrch, ac i'w gwneud yn haws i'r holl wasanaethau ar-lein sy'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf gydymffurfio, sy'n cynnwys llawer o fusnesau bach a chanolig. Mae cynlluniau ar gyfer 'Gwasanaeth Cymorth Digidol' newydd, sy'n cynnwys offer digidol rhyngweithiol ar gyfer cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio ac sy'n seiliedig ar eu safbwyntiau a'u hadborth, yn mynd rhagddynt yn dda. Bydd hyn ar gael ar wefan Ofcom. Bydd ein datganiad cyntaf yn darparu proses pedwar cam ar gyfer niwed anghyfreithlon, gan gynnwys dyletswyddau asesu risg, Codau a rhwymedigaethau cadw cofnodion gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth hwn yn adeiladu ar ein Gwiriwr Rheoliadau diogelwch ar-lein (y gall cwmnïau ac unigolion ei ddefnyddio i weld a yw'r rheolau'n berthnasol i'w gwasanaeth), ein 'canllawiau cyflym' i'r rheoliadau arfaethedig, a'n gwasanaeth ymholiadau busnes.

Rydym eisoes wedi lansio ymgyrch gyfathrebu yn y sector oedolion i godi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau newydd ar wasanaethau sy'n cynnal pornograffi, gan gynnwys cynnal ein digwyddiad cyntaf yn y diwydiant ar gynnwys i oedolion. Byddwn yn dechrau ymgyrch arall i godi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau asesu risg ar gyfer niwed anghyfreithlon yn gynnar yn 2025.

### Goruchwyliaeth wedi'i thargedu o wasanaethau mawr a bach sy'n peri risgiau penodol

Mae ein tîm Goruchwylio yn ymgysylltu â gwasanaethau dethol sy'n peri risg benodol, naill ai oherwydd eu maint neu oherwydd natur y gwasanaeth. Mae'r trosolwg hwn wedi'i dargedu yn cynnwys deall mesurau gwasanaethau'n fanwl, asesu pa mor dda maen nhw'n diogelu defnyddwyr, a gwthio am welliannau amserol lle bo angen. Rydym wedi nodi ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr

rhag cynnwys niweidiol ar wasanaethau ar-lein ‘bach ond peryglus’ mewn llythyr at y Llywodraeth ym mis Medi 2024.

Rydym wedi datblygu ein dull goruchwylio drwy ein gwaith presennol i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi’u sefydlu yn y DU ers 2020. Rydym wedi sicrhau gwelliannau ar draws VSP sy’n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys cyflwyno mesurau sicrhau oedran ar wefannau oedolion a chyflwyno mesurau newydd a gwell i fynd i’r afael â deunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Mae ein gwaith ymgysylltu cynnar dan y drefn diogelwch ar-lein, yn ogystal â gwaith gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth i ddefnyddio ei Chod Plant, wedi dangos bod dull goruchwylio yn effeithiol o ran sbarduno newid. Er enghraifft, fe wnaethom groesawu’r newidiadau y mae Meta wedi’u gwneud i Facebook ac Instagram, sy’n cyd-fynd â’r mesurau i ddiogelu plant rhag meithrin perthynas amhriodol yn ein Cod niwed anghyfreithlon arfaethedig, yn ogystal â chyflwyno ‘Teen Accounts’ ar Instagram, a fydd yn cyfyngu ar bwy sy’n gallu cysylltu â phobl ifanc yn eu harddegau a’r cynnwys maen nhw’n gallu ei weld, ac yn darparu amddiffyniadau preifatrwydd a diogelwch pwysig. Yn ogystal, fe wnaethom groesawu newidiadau a gyflwynwyd gan Snapchat i helpu i atal dieithriaid rhag cysylltu â phobl ifanc yn eu harddegau. Mae’n gam cadarnhaol i weld y gwasanaethau hyn yn gweithredu i gadw eu defnyddwyr yn ddiogel, ond mae mwy i’w wneud o hyd, a byddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i sbarduno gwelliannau mewn diogelwch defnyddwyr.

## Gorfodi’r rheolau

Ein dewis ni yw gweithio gyda gwasanaethau i annog cydymffurfiaeth wirfoddol. Ond fe fyddwn, os bydd angen, yn lansio camau gorfodi pan fyddwn yn penderfynu nad yw darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â’i ddyletswyddau, er enghraifft pan fyddwn o’r farn nad yw’n cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed.

Dan y Ddeddf, pan fyddwn yn canfod methiannau cydymffurfio, gallwn osod dirwyon o hyd at £18m neu 10% o refeniw byd-eang cymwys darparwr y gwasanaeth (pa un bynnag sydd fwyaf). Yn yr achosion mwyaf difrifol o beidio â chydymffurfio, gallwn ofyn am orchymyn llys sy’n gosod mesurau tarfu ar fusnes, a all fynnu bod trydydd partïon (fel darparwyr gwasanaethau talu neu wasanaethau hysbysebu, neu ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd) yn tynnu’n ôl eu gwasanaethau yn y DU, neu’n cyfyngu ar fynediad i’w gwasanaethau.

Ar ben hynny, gall darparwyr gwasanaeth gyflawni trosedd os ydynt yn methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth neu os ydynt yn methu, heb esgus rhesymol, â chymryd camau cydymffurfio a nodir ym mhenderfyniad Ofcom bod y gwasanaeth yn torri dyletswyddau penodol sy’n ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant (CSEA) a diogelwch plant. Mewn achosion o’r fath, gall cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y darparwr hefyd fod yn atebol yn droseddol am y methiannau.

I gefnogi ein hymchwiliadau, mae gennym bwerau i ofyn am wybodaeth a chael adroddiadau gan bobl fedrus, a gallwn gymryd camau gorfodi lle nad yw darparwyr gwasanaeth yn ymateb neu’n darparu gwybodaeth anghywir.

O dan ein gwaith ar Lwyfannau Rhannu Fideos (VSP), mae Ofcom wedi cyhoeddi nifer o ofynion am wybodaeth gan wasanaethau o fewn y cwmpas i hyrwyddo tryloywder ynghylch y mesurau mae gwasanaethau’n eu cymryd i ddiogelu eu defnyddwyr a sicrhau gwelliannau. Ym mis Gorffennaf 2024, canfu Ofcom fod TikTok wedi torri eu dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth gywir mewn ymateb i un cais o’r fath a rhoesom gosb o £1,875,000 o ganlyniad.

Fel rydyn ni’n egluro’n fanylach yn adran map ffordd y ddogfen hon, rydyn ni’n disgwyl y bydd modd gorfodi’r dyletswyddau diogelwch niwed anghyfreithlon a’r dyletswyddau asesu risg anghyfreithlon oddeutu mis Mawrth 2025 ac y bydd modd gorfodi’r dyletswyddau diogelwch ar gyfer amddiffyn plant a’r dyletswyddau asesu risg plant oddeutu mis Gorffennaf 2025. Ar y pwynt hwn, gallwn ddechrau ymchwiliadau os gwelwn nad yw gwasanaethau’n cydymffurfio â’r dyletswyddau hyn.

Rydym yn disgwyl i’n camau gorfodi cynnar ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau’n asesu risg yn ddigonol ac yn rhoi ar waith y mesurau a fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran diogelu defnyddwyr, yn enwedig plant, rhag niwed difrifol fel y rhai sy’n ymwneud â CSAM, pornograffi a thwyll. Ochr yn ochr â chamau gweithredu wedi’u targedu yn erbyn gwasanaethau penodol, byddwn hefyd yn lansio rhaglenni cydymffurfio ehangach ar gyfer sawl gwasanaeth neu’r sector cyfan wrth i’r prif

ddyletswyddau diogelwch ddod i rym, lle credwn y gallai fod problemau systemig y mae angen gweithredu'n gyflym ac yn gynhwysfawr arnynt i gyflawni'r newid angenrheidiol.

### Bydd y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) yn canolbwyntio ar feysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf nes y bydd wedi'i diddymu

Mae rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y DU wedi bod mewn grym ers 2020 a bydd yn cael ei ddisodli gan y Ddeddf. Ar 30 Ebrill 2024, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol offeryn statudol yn y Senedd Brydeinig a oedd yn nodi 2 Medi 2024 fel 'dyddiad dechrau asesu'. Roedd y dyddiad hwn yn sbarduno'r gofynion i ddarparwyr llwyfannau rhannu fideos presennol gynnal asesiadau risg ac asesiadau o fynediad plant ar gyfer eu gwasanaethau. Roedd mis Medi hefyd yn nodi dechrau'r chwe mis gofynnol o rybudd y mae'n rhaid i'r Llywodraeth Brydeinig roi i lwyfannau rhannu fideos am ei bwriad i ddiddymu'r drefn. Y Llywodraeth fydd yn penderfynu ar y dyddiad diddymu yn y pen draw, a disgwylir iddo ddigwydd ar ôl i'r Codau Amddiffyn Plant ddod i rym oddeutu mis Gorffennaf 2025. Bydd Ofcom yn cefnogi darparwyr Llwyfannau Rhannu Fideos i symud i'r drefn diogelwch ar-lein; mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn ein diweddariad ar ddiddymu rheoliadau Llwyfannau Rhannu Fideos.

Ein nodau ar gyfer gweddill y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos yw sicrhau:

- Bod gan Lwyfannau Rhannu Fideos bolisïau defnyddwyr clir sy'n hawdd dod o hyd iddynt a'u deall,
- bod fideos terfysgol neu fideos sy'n ysgogi casineb a/neu drais yn cael eu tynnu i lawr yn gyflym,
- bod rhai sy'n cam-drin yn cael eu hatal rhag rhannu a/neu wylio fideos cam-drin plant yn rhywiol,
- bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos pornograffig a'u gwylio ar lwyfannau i oedolion,
- bod plant yn cael eu hatal rhag dod o hyd i fideos eraill sy'n amhriodol i'w hoedran a'u gwylio, a
- bod pob defnyddiwr yn gallu cael mynediad at adnoddau effeithiol a hawdd eu defnyddio i roi gwybod am gynnwys neu i gyflwyno cwynion.

Mae'r drefn Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) yn brawf effeithiol ar gyfer sut y gall rheoleiddio diogelwch ar-lein weithio'n ymarferol. Drwy ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau rheoleiddio sydd ar gael i ni, rydyn ni wedi gallu gwneud cynnydd o ran:

- nodi, ymchwilio a darparu dadansoddiad o'r hyn sy'n arfer da a gwael,
- argymell newidiadau a gwreiddio safonau drwy ymgysylltu goruchwyliol,
- gwella mesurau drwy gymryd camau gorfodi cymesur pan fyddwn wedi canfod meysydd sy'n peri pryder, a
- tynnu sylw at arferion da a gwael drwy adroddiadau a gyhoeddir.

## Meithrin gwybodaeth a gweithio gyda phartneriaid

### Rydym wedi datblygu galluoedd i fynd i'r afael â materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac wedi lansio gwaith i werthuso effaith ein rheoliadau

Mae technoleg yn newid o hyd, ac felly hefyd niwed a risgiau ar-lein. Mae'r ffaith bod deallusrwydd artiffisial wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar yn enghraifft glir o hyn. Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i fod yn niwtral o ran technoleg i adlewyrchu'r datblygiadau cyflym hyn. Rydym yn olrhain materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ym maes diogelwch ar-lein ac rydym wedi adeiladu seilwaith, offer a phrosesau i roi data wrth galon ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein.

Mae ein rhaglen sganio'r gorwel yn parhau i gynhyrchu dadansoddiad beirniadol o dechnolegau a thueddiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom lansio'r Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein – cyfleuster mewnol sy'n canolbwyntio ar ymchwilio, profi a

gwerthuso gwahanol ddulliau technegol o ymdrin ag ymddiriedaeth a diogelwch ar-lein. Fe wnaethom feithrin cysylltiadau cryf â'r sector academaidd i ddylanwadu ar gyfeiriad ymchwil yn y dyfodol tuag at yr heriau technolegol mwyaf o ran diogelwch ar-lein - fel deallusrwydd artiffisial, preifatrwydd, a lleihau niwed. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi papurau trafod ar Red Teaming for GenAI Harms a Deepfake Defences: Mitigating the Harms of Deceptive Deepfakes.

Mae ein gwaith gwerthuso yn cynnwys asesu a yw ein hymyriadau'n arwain at newidiadau yn systemau a phrosesau gwasanaethau, bywyd ar-lein mwy diogel i ddefnyddwyr, yn enwedig plant, a chanlyniadau anfwriadol y mae angen eu lliniaru. Rydym yn cynnal dadansoddiadau ac arolygon eleni i ddarparu data meincnod y gallwn olrhain newid yn ei erbyn dros amser.

## Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer diogelwch ar-lein

### Gwaith partner gyda rheoleiddwyr eraill

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr partner yn y DU fel rhan o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) i ddarparu dull gweithredu cydlynol ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Rydym wedi gweithio'n arbennig o agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i roi ystyriaeth ofalus i ystyriaethau diogelu data, a chyd-fynd â'i Chod Plant yn benodol, yn ein cynigion. Mae'r fforwm wedi mynd ati i gydweithio mwy ar lywodraethu deallusrwydd artiffisial ac mae wedi treialu gwasanaeth aml-reoleiddiwr newydd, sef 'Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol DRCF', i ddarparu cyngor anffurfiol i ddyfeiswyr pethau newydd. Mae hefyd yn cydweithio ar dechnoleg hysbysebu a thechnoleg diogelwch – fel pensaernïaeth dewis ar-lein a chwcis, sicrhau oedran a chymedroli cynnwys.

### Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â niwed ar-lein

Mae rheoleiddio yn rhan o ddull gweithredu amlasiantaeth llawer ehangach ar gyfer niwed ar-lein ar draws y llywodraeth, gorfodi'r gyfraith a chymdeithas sifil. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid hyn i ddeall y niwed a chydweithio ar draws y system, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ein cynigion polisi.

### Aliniad rhyngwladol

Fe wnaethom gyd-sefydlu ac ar hyn o bryd rydym yn cadeirio'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, yr unig fforwm pwrpasol yn y byd ar gyfer rheoleiddwyr diogelwch ar-lein, gan sicrhau bod ein gwaith o ddatblygu polisi amddiffyn plant a niwed anghyfreithlon yn cael ei gyfoethogi gan arferion gorau rhyngwladol. Rydym hefyd wedi dyfnhau ein perthynas â sefydliadau rheoleiddio blaenllaw ar draws pum cyfandir, gan gynnwys UNESCO a'r OECD.

Rydym yn gweithio i leddfu'r gwrthdaro o ran cydymffurfio y gallai cwmnïau rhyngwladol ei wynebu, gan sicrhau nad yw gweithredwyr gwael yn gallu manteisio ar ddaearyddiaeth i osgoi eu cyfrifoldebau rheoleiddio yn y DU. Mae hyn yn ymestyn i'r ffordd rydym yn datblygu'r Codau Ymarfer a'r dogfennau canllaw – lle bo modd, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein dull gweithredu yn cyd-fynd â fframweithiau rheoleiddio cyfatebol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Digidol yr UE (DSA). Yn ddiweddar, bu i ni lofnodi cytundeb newydd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n anelu at fwy o gydlynu wrth weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r DSA.

## Rydym yn parhau i ymgysylltu â phlant a'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol er mwyn sbarduno newid

Mae ymchwil yn sail i'n holl waith fel rheoleiddiwr. Ar hyn o bryd mae gennym oddeutu 60 o brosiectau ymchwil byw ac rydym wedi cwblhau llawer mwy.

Rydym yn gwybod y gall dogfennau ymgynghori ffurfiol fod yn gymhleth ac yn fanwl, ac y gallant gynnwys gwybodaeth sensitif, a allai beri gofid, am niwed ar-lein. Er ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ni ymgynghori ar yr wybodaeth fanwl hon, mae Ofcom wedi ymrwymo i fabwysiadu dull o

ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol a phlant, mewn ffordd sy'n meithrin eu dealltwriaeth ac yn gofyn am eu barn mewn ffordd sensitif.

## Ymgysylltu â phlant

Wrth ddatblygu ein cynigion i amddiffyn plant ar-lein, fe wnaethom gwblhau rhaglen ymchwil helaeth, gan siarad â thros 15,000 o blant a thros 7,000 o rieni i ddeall eu profiadau ar-lein a sut i daethant i gysylltiad â niwed. Fe wnaethom hefyd gomisiynu Revealing Reality i siarad â dros 100 o blant o bob rhan o'r DU i gael gwybod beth yw eu barn am ein codau drafft ar amddiffyn plant.

Ers ein diweddariad Map Ffordd diwethaf, rydym hefyd wedi sefydlu Traciwr Diogelwch Plant Ar-lein (gyda Discovery Research a Childwise) sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd gyda phlant a bydd yn mynd yn fyw ddechrau 2025. Rydym hefyd wedi comisiynu Beano Brain, asiantaeth arbenigol ar gyfer deall plant, i weithio gyda ni i ddatblygu ymhellach ein hymchwil a'n hymgysylltiad â phlant a rhieni dros y blynyddoedd i ddod.

## Ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol

Yn aml, nid ymatebion i ymgynghoriadau rheoleiddio ffurfiol yw'r ffordd orau i ni ddeall safbwyntiau unigolion, yn enwedig mewn perthynas â'u profiad eu hunain o niwed. Rydym eisoes yn ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o niwed i lywio ein gwaith o ddatblygu polisïau ac rydym yn edrych ar sut mae gwreiddio'r profiad hwn ymhellach yn ein gwaith. Mae hyn yn bwysig i ni am ddau brif reswm:

- rhoi ffordd ystyrlon a hygyrch i unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o niwed gyfrannu at ddatblygu ein polisïau, gan ganiatáu ar gyfer deialog barhaus y tu hwnt i'r ymatebion i'r ymgynghoriad; a
- datblygu polisïau sy'n seiliedig ar brofiadau pobl y mae'r mathau o niwed perthnasol rydym yn ceisio eu lliniaru yn effeithio arnynt ac o fudd iddynt.

## Gweithio gyda chymdeithas sifil a chyrff arbenigol

Ymgysylltu â grwpiau cymdeithas sifil, academyddion a chyrff arbenigol i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar eu harbenigedd hefyd yn agwedd hanfodol ar ein dull o ddatblygu polisi rheoleiddio. Rydym wedi cynnal dros 300 o gyfarfodydd, trafodaethau bwrdd crwn, gweithdai a digwyddiadau gyda'r rhanddeiliaid hanfodol hyn, wedi derbyn dros 350 o ymatebion i ymgyngoriadau ganddynt, ac wedi cynnal chwe gweminar yn canolbwyntio ar ein hymgynghoriadau ar niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant sydd wedi cyrraedd dros 370 o sefydliadau. Rydym yn ddiolchgar am yr wybodaeth maen nhw wedi'i rhoi; lle bo'n bosibl, rydym wedi adlewyrchu'r wybodaeth honno yn y canllawiau a'r Codau diwygiedig y byddwn ni'n eu cyhoeddi ym misoedd Rhagfyr, Ionawr ac Ebrill, ac yn y cynigion newydd rydym yn bwriadu eu cyhoeddi yn y gwanwyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n holl randdeiliaid wrth i ni weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

# Map ffordd wedi'i ddiweddaru

## Rydym yn dal ar y trywydd iawn i gyhoeddi argraffiad cyntaf ein Codau Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant erbyn y dyddiad statudol


Fe wnaethom gyhoeddi ein dull gweithredu ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith ym mis Hydref 2023. Roedd hwn yn nodi ein hamserlen ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Ar y pryd, roeddem wedi nodi y gallai'r amserlenni hyn newid, yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd ynghylch pryd y byddai Etholiad Cyffredinol y DU yn cael ei alw.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn ein hamserlenni ar gyfer camau un a dau ein cynlluniau ar gyfer gweithredu, sy'n cynnwys mesurau niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant. Yn yr adran hon rydym yn rhoi rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer y cerrig milltir allweddol yn y camau hyn. Fel y nodir uchod, rydym wedi diwygio ein hamserlen ar gyfer rhoi cam tri ar waith.

Mae'r dyddiadau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu ein hamserlenni presennol; wrth i ni barhau i fynd i'r afael â materion a godir gan randdeiliaid, ac wrth i'r llywodraeth roi'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith, mae'n bosibl y gallai rhai dyddiadau newid. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau i'r amserlen hon.

Mae rhai camau yn yr amserlen hon yn rhai i'r Llywodraeth neu'r Senedd Brydeinig eu cymryd. Yr ydym wedi nodi pryd y disgwyliwn i'r camau hyn ddigwydd, ond mater i'r Llywodraeth a'r Senedd yw penderfynu'n benodol. Ar gyfer cam 3 rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaeth gynllunio y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd Brydeinig ym mis Rhagfyr 2024.

**Ffigur 2: Ein hamserlen ar gyfer gweithredu'r Ddeddf**




## Cam un: Niwed Anghyfreithlon

Mae'r cam cyntaf hwn yn canolbwyntio ar Godau a chanllawiau sy'n ymwneud â dyletswyddau o ran cynnwys anghyfreithlon. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r peryglon mwyaf ar-lein fel terfysgaeth a thwyll, ac mae'n cynnwys mesurau i amddiffyn plant rhag cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cam hwn bron â chael ei gwblhau.

Ganol mis Rhagfyr 2024, rydym yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad ar Niwed Anghyfreithlon. Bydd hyn yn cynnwys argraffiad cyntaf y Codau Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon, a'r canllawiau terfynol ar asesu risg cynnwys anghyfreithlon. Fel y nodir gan y Ddeddf, bydd angen i wasanaethau wedyn gwblhau eu hasesiadau risg cynnwys anghyfreithlon o fewn tri mis. Pan fyddwn yn cyhoeddi'r canllawiau hyn, byddwn hefyd yn cyflwyno'r Codau Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd, yn amodol ar ei gymeradwyaeth, yn cael eu cyflwyno yn y Senedd Brydeinig am 40 diwrnod.

Ar ôl i'r Senedd Brydeinig eu cymeradwyo, daw'r codau i rym 21 diwrnod ar ôl cyfnod gweithredu o 21 diwrnod. Yn amodol ar y broses Seneddol hon, rydym yn disgwyl y bydd modd gorfodi'r dyletswyddau diogelwch niwed anghyfreithlon oddeutu mis Mawrth 2025. Ar y pwynt hwn, gallwn ddechrau ymchwiliadau a gosod sancsiynau os gwelwn nad yw gwasanaethau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Ochr yn ochr â'n datganiad ar niwed anghyfreithlon ym mis Rhagfyr 2024, byddwn hefyd yn cyhoeddi ein canllawiau gorfodi terfynol, a'n canllawiau cadw cofnodion ac adolygu terfynol.

Rydym hefyd yn bwriadu lansio ymgynghoriad pellach sy'n adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn y Codau cyntaf yn ystod gwanwyn 2025. Rydym yn disgwyl y bydd yr ychwanegiadau hyn i'r Codau yn dod i rym rywbryd yn 2026.

Ym mis Rhagfyr 2024 rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein pŵer i gyhoeddi Hysbysiad Technegol dan adran 121 o'r Ddeddf. Gallai Hysbysiad Technoleg fynnu bod darparwr gwasanaeth Rhan 3 yn defnyddio neu'n datblygu technoleg achrededig i ddelio â chynnwys CSEA a/neu derfysgaeth, ond dim ond ar ôl cymryd sawl cam. Bydd ein hymgynghoriad yn ystyried rhai o'r camau hynny. Bydd yn

rhoi sylw i'n cynigion ar y safonau cywirdeb sylfaenol ar gyfer technoleg a allai fod yn ofynnol fel rhan o Hysbysiad Technoleg, a chanllawiau drafft i ddarparwyr ar sut rydym yn bwriadu arfer ein swyddogaethau dan adran 121. Yn amodol ar ymatebion i'r ymgynghoriad, ein nod yw cyflwyno ein cyngor terfynol ar safonau cywirdeb gofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a chyhoeddi ein canllawiau terfynol yn 2025. Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi'r safonau cywirdeb gofynnol, byddwn yn datblygu'r broses achredu fel y gall datblygwyr technoleg gyflwyno ceisiadau.

## Cam dau: Diogelwch plant, pornograffi, ac amddiffyn menywod a merched

Mae ail gam ein gwaith yn canolbwyntio ar amddiffyn plant rhag cynnwys cyfreithlon a allai fod yn niweidiol iddynt, gan gynnwys pornograffi, cynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, cynnwys sy'n gamdriniol ac sy'n cael ei dargedu at, neu sy'n cymell casineb yn erbyn pobl ar sail nodweddion gwarchodedig; bwlio, a chynnwys sy'n dangos trais difrifol.

Mae sawl elfen i'r cam hwn:

- Yn gyntaf, fel yr eglurir yn y diweddariad cynnydd uchod, **bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein sy'n cynnal cynnwys pornograffig ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant rhag gallu cael mynediad at y cynnwys hwnnw yn arferol.** Ym mis Ionawr 2025, byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau sicrwydd oedran terfynol ar gyfer cyhoeddwyr cynnwys pornograffig, y gwnaethom ymgynghori arnynt gyntaf ym mis Rhagfyr 2023. Rydym yn disgwyl i'r llywodraeth ddechrau'r rhan o'r Ddeddf (Rhan 5) sy'n berthnasol i'r darparwyr hyn, oddeutu adeg cyhoeddi ein canllawiau, ac ar yr adeg honno bydd modd gorfodi eu dyletswyddau sicrhau oedran, a byddwn yn dechrau monitro cydymffurfiaeth. Bydd y dyletswyddau cysylltiedig ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr i atal plant rhag dod ar draws cynnwys pornograffig mewn grym ar ôl i'r Codau Amddiffyn Plant basio drwy'r Senedd Brydeinig, a disgwyliwn y bydd hynny yn ystod haf 2025.
- Yn ail, bydd yn rhaid i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio gynnal asesiad mynediad plant. Byddwn yn cyhoeddi ein **canllawiau terfynol ar asesiadau mynediad plant** ym mis Ionawr 2025. Fel y nodir yn y Ddeddf, bydd gan ddarparwyr gwasanaethau dri mis wedyn i gwblhau'r broses asesu mynediad plant.
- Bydd yr asesiad hwn yn pennu a yw'r gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant. Os yw'r gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan blant, bydd yn rhaid i'r gwasanaeth gwblhau asesiad risg plant a chydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys asesu'r risgiau y mae eu gwasanaethau'n eu hachosi i blant a chymryd camau i liniaru'r risgiau hynny.
- **Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar ddyletswyddau diogelwch plant ym mis Ebrill 2025. Ochr yn ochr â'r datganiad hwn, byddwn hefyd yn cyhoeddi ein canllawiau terfynol ar asesu risg plant.** Bydd gan ddarparwyr gwasanaeth dri mis o fis Ebrill 2025 i gynnal eu hasesiadau risg plant.

Ym mis Ebrill 2025, byddwn yn cyflwyno'r Codau Ymarfer Plant i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, byddant wedyn yn cael eu cyflwyno yn y Senedd Brydeinig am 40 diwrnod. Ar ôl mynd drwy'r Senedd, daw'r Codau i rym ar ôl cyfnod gweithredu o 21 diwrnod. Rydym yn disgwyl y bydd modd gorfodi'r dyletswyddau diogelwch amddiffyn plant ym mis Gorffennaf 2025. Ar y pwynt hwn, gallwn ddechrau ymchwiliadau a gosod sancsiynau am beidio â chydymffurfio.

Ym mis Chwefror 2025, byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau drafft ar amddiffyn menywod a merched, yn cynnwys cyngor ar gynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ac ar asesu a lleihau'r risg o niwed iddynt. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canllawiau terfynol erbyn diwedd 2025, gyda fersiynau pellach o'r canllawiau hyn yn cael eu cynllunio wrth i ragor o'r drefn ddod i rym.

Yn olaf, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar gynnwys sy'n niweidiol i blant cyn mis Hydref 2026, a byddwn yn bwrw ymlaen â rhagor o waith ar sicrwydd oedran a storfeydd apiau, gyda golwg ar gyhoeddi adroddiadau ar y pynciau hyn yn 2026.

## Cam tri: Categoreiddio a dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio

Bydd trydydd cam rheoleiddio diogelwch ar-lein yn canolbwyntio ar y dyletswyddau ychwanegol a fydd yn berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio. Bydd gwasanaethau yn cael eu categoreiddio a'u dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth.

Bydd gofyn i'r gwasanaethau wedi'u categoreiddio hyn gydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion ychwanegol, gan ddibynnu ar ba gategori maen nhw'n perthyn iddo, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddod â lefel uwch o ddiogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i'r byd ar-lein.

Ar 29 Chwefror 2024, fe wnaethom gyflwyno cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y trothwyon ar gyfer pob categori. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn gosod trothwyon ar gyfer categoreiddio mewn is-ddeddfwriaeth.

Ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei phasio, byddwn yn casglu gwybodaeth berthnasol gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i benderfynu pa wasanaethau sy'n dod o dan bob trothwy. **Yna, byddwn yn cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio ac yn cyhoeddi rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg.** Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r gofrestr hon tua phedwar i bum mis ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei phasio, a fydd, ar sail ein rhagdybiaethau cynllunio presennol, yn haf 2025.

Ar gyfer y cam hwn o'r gwaith, **rydym wedi blaenoriaethu lansio'r drefn tryloywder.** Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canllawiau adrodd ar dryloywder terfynol ddechrau 2025 fel y bwriadwyd yn flaenorol. Rydym yn disgwyl dechrau cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft i wasanaethau wedi'u categoreiddio o fewn ychydig wythnosau i gyhoeddi'r gofrestr, a chyhoeddi hysbysiadau tryloywder terfynol yn fuan wedyn. Felly, rydym yn disgwyl y bydd yr adroddiadau tryloywder cyntaf yn cael eu cyhoeddi gan wasanaethau wedi'u categoreiddio tua diwedd 2025.

Mae ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn nodi beth fyddwn ni'n ei wneud i sefydlu beth sy'n gweithio o ran galluogi defnyddwyr i lywio drwy gynnwys a gwasanaethau ar-lein yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys adnoddau a nodweddion dylunio o wasanaethau, a'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i wneud hynny er mwyn ffynnu ar-lein. Cyn cyflwyno Codau Ymarfer pellach ar alluogi defnyddwyr, **byddwn yn cyflwyno datganiad o argymhellion ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau** i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ar y ffordd orau o annog ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ystod haf 2025, gan ddefnyddio ein tystiolaeth a'n hymchwil ddiweddaraf gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol yn ogystal ag arbenigwyr blaenllaw yn y maes hwn.

**Rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o gynigion ynghylch dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Bydd y cynigion hyn yn cynnwys adnoddau i ddefnyddwyr reoli pa gynnwys maen nhw'n ei weld, mesurau i sicrhau bod gwasanaethau'n cymhwyso'u telerau gwasanaeth yn gyson, a Chod Ymarfer drafft ar hysbysebu twyllodrus.[1] Byddwn yn cyhoeddi ceisiadau ffurfiol ac y gellir eu gorfodi am wybodaeth, cyn gynted ag y gallwn wneud hynny, i sicrhau bod ein cynigion ynghylch y dyletswyddau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gywir gan wasanaethau am eu harferion presennol, ac nad ydym yn dibynnu'n llwyr ar wybodaeth sydd ar gael drwy ymchwil neu ddata cyhoeddedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein cynigion yn cael eu targedu'n benodol at y gwasanaethau penodol sydd o fewn cwmpas y dyletswyddau hyn, ac yn fwy parhaus.

Fel y nodir yn y diweddariad cynnydd uchod, rydym wedi diwygio ein hamserlen ar gyfer cyhoeddi'r cynigion pellach hyn. Rydym nawr yn disgwyl cyhoeddi Codau drafft erbyn dechrau 2026 fan bellaf, hyd at flwyddyn yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol. Mae'r cynllun diwygiedig hwn yn cael ei yrru gan yr amserlen ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, a chan ein penderfyniadau i greu capasiti ychwanegol ar gyfer cynigion newydd ar niwed anghyfreithlon, amddiffyn plant, a thrais yn

---

[1] Mae'r prif ddyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio yn cynnwys: tryloywder; telerau gwasanaeth; grymuso defnyddwyr; dilysu ID defnyddwyr; dyletswyddau cyhoeddwyr newyddion; cynnwys o bwysigrwydd democrataidd; cynnwys newyddiadurol; hysbysebu twyllodrus; a; dyletswyddau defnyddwyr plant sydd wedi marw. I gael rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn, edrychwch ar ein galwad am dystiolaeth Cam 3, a ddaeth i ben ym mis Mai 2024.

erbyn menywod a merched, ac i ddefnyddio ceisiadau am wybodaeth i lywio ein gwaith o ddatblygu polisïau.

## Mae'r Llywodraeth Brydeinig ac Ofcom wedi lansio gwaith i gyflwyno trefn uwch-gwynion

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu trefn uwch-gwynion ar gyfer Diogelwch Ar-lein. Bwriad uwch-gwynion yn y Ddeddf yw galluogi endidau cymwys i godi materion systemig sy'n codi ar draws gwasanaethau, neu mewn amgylchiadau eithriadol ar un gwasanaeth, i sylw'r rheoleiddiwr.

Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) wedi ymgynghori ar y meini prawf i endid fod yn gymwys i wneud uwch-gŵyn, meini prawf er mwyn uwch-gŵyn fod yn dderbynion a gofynion gweithdrefnol ar gyfer gwneud uwch-gŵyn. Yna, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod ffurf derfynol y meini prawf a'r gofynion gweithdrefnol hyn mewn is-ddeddfwriaeth. Ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei gosod, bydd Ofcom yn ymgynghori ar ei ganllawiau ynghylch uwch-gwynion, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall endid wirio ei gymhwysedd yn erbyn y meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud uwch-gŵyn. Rydym yn disgwyl i'r canllawiau fod yn eu lle erbyn pedwerydd chwarter 2025, ar yr amod bod yr is-ddeddfwriaeth yn ei lle.

Pan fydd y gŵyn yn bodloni'r meini prawf statudol, bydd yn cael ei thrin fel uwch-gŵyn ac ymdrinnir â hi gan Ofcom yn unol â'r amserlenni a'r prosesau sydd i'w nodi mewn rheoliadau ac yng nghanllawiau Ofcom. Bydd Ofcom yn asesu cymhwysedd endid i wneud uwch-gŵyn fesul achos.

Rydym yn disgwyl y bydd y dystiolaeth o ansawdd uchel fydd ei hangen i gefnogi uwch-gŵyn yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am dueddiadau systemig sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein. Gallai ein hymateb gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ystyried camau gorfodi lle ceir tystiolaeth nad yw gwasanaethau'n cydymffurfio â rheoliadau.

## Rydym yn disgwyl i'n trefn ffioedd fod ar waith yn 2026/27

Bydd y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei hariannu gan ffioedd a delir gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio y mae eu "refeniw byd-eang cymwys" (QWR) yn cyrraedd neu'n rhagori ar drothwy penodol, ac nad ydynt wedi'u heithrio fel arall. Bydd yn rhaid i ddarparwyr sy'n atebol i dalu ffioedd roi gwybod i Ofcom a byddant yn cael eu hanfonebu yn unol â hynny. Bydd ffioedd yn cael eu cyfrifo, ymysg pethau eraill, gan gyfeirio at refeniw byd-eang cymwys y darparwr.

Mae Ofcom a DSIT ill dau yn gyfrifol am weithredu'r drefn ffioedd. Bydd Ofcom yn pennu QWR, unrhyw eithriadau rhag y ddyletswydd i roi gwybod, a'r ddyletswydd i dalu ffioedd, a sut y dylid cyfrifo'r ffioedd. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu'r trothwy ar gyfer refeniw byd-eang cymwys, ar ôl derbyn cyngor gan Ofcom.

Mis Hydref 2024, byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y diffiniad o refeniw byd-eang cymwys, unrhyw eithriadau, a'n dull o gyfrifo ffioedd, yn ogystal â'r cyngor y byddwn yn ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y trothwy ar gyfer refeniw byd-eang cymwys a drafft o'r offerynnau statudol. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno ein cyngor terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Ebrill 2025.

Bydd llawer o'r drefn ffioedd yn cael ei gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth gyda'r Senedd yn craffu ar y broses honno. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) gyda'r nod o weithredu'r drefn gyllido erbyn blwyddyn ariannol 2026/27.